

Mae MARS yn system Cymru gyfan a ddarperir gan Addysg a Gwella Iechyd Cymru ac a ariennir gan Lywodraeth Cymru i hwyluso'r broses o arfarnu ac ailddilysu meddygon.



Cynnwys- Arfarnwr

1. Sefydlu Arfarnwr
2. Gosod Argaeledd Arfarnwyr
3. Trefnu Cyfarfod Arfarnu
4. Gweld a Chreu Crynodeb o'r Arfarniad
5. Gwybodaeth Ategol
6. Cyfyngiadau
7. Tudalen Ailddilysu
8. Cyflwyno Crynodeb o'r Arfarniad
9. Argraffu Gwybodaeth Arfarnu
10. Dadansoddi Adborth
11. Cadw eich Arolwg Adborth ar Arfarnwyr MARS ar ffurf PDF
12. Rhagor o Adnoddau



GIG
CYMRU
NHS
WALES

Addysg a Gwella Iechyd
Cymru (AaGIC)
Health Education and
Improvement Wales (HEIW)

Sefydli Arfarnwr

Er mwyn cael mynediad at y rôl Arfarnwr ar y safle, mae'n rhaid eich bod wedi cael eich penodi'n Arfarnwr ar gyfer eich Corff Dynodedig a'ch cynnwys yn y rôl hon gan yr Uned Cymorth Ailddilysu (AaGIC). Os ydych chi'n Feddyg Gofal Eilaidd, dylai eich Swyddog Cyfrifol fod wedi cytuno ar nifer yr arfarniadau y dylech chi fod yn eu cynnal eleni.

Ar ôl i chi gael eich penodi'n Arfarnwr a'ch gwneud yn weithredol gan yr Uned Cymorth Ailddilysu – byddwch yn gallu newid rhwng rolau 'Doctor' ac 'Arfarnwr' gan ddefnyddio'r bar ochr ar ochr chwith safle MARS.


Pan fyddwch chi'n mynd i mewn i MARS, byddwch chi'n cael eich mewngofnodi fel meddyg yn awtomatig. I ddefnyddio'r swyddogaeth Arfarnwr, bydd angen i chi glicio Arfarnwr yn y ddewislen ar y chwith.

Ar ôl i chi bwysu'r botwm Arfarnwr, cewch ddewis tri opsiwn: Rheoli, Arfarnu a Dadansoddi Adborth.

Y botwm **Rheoli** yw lle byddwch yn dod o hyd i'ch calendr Arfarnu a lle gallwch nodi pryd rydych ar gael, trefnu cyfarfodydd arfarnu a chwblhau'r camau gweithredu sy'n weddill.


Y botwm **Arfarniadau** yw lle gallwch weld manylion presennol a blaenorol yr Arfarnai, gweld gwybodaeth arfarnu a chreu a golygu crynodebau arfarnu.

Defnyddir **Dadansoddiadau Adborth** i weld adborth dienw gan y meddygon rydych chi wedi'u harfarnu.



Gosod Argaeledd Arfarnwr

Cyn i chi ddechrau derbyn a gwrthod darpar Arfarneion a threfnu dyddiadau cyfarfodydd, fe'ch anogir i ysgrifennu bywgraffiad byr i roi ychydig o wybodaeth amdanoch eich hun i feddygon. I osod eich bywgraffiad, edrychwch i'r dde o'r sgrin ar y dudalen 'Arfarnwr' > 'Rheoli', a dewis y blwch glas isaf o dan 'Argaeledd yn ystod y Mis'. Yma mae botwm i 'Ychwanegu/Golygu Bywgraffiad' a bydd yn agor blwch arall lle gallwch ysgrifennu. Dylai'r bywgraffiad fod yn fywgraffiad byr sy'n canolbwyntio ar eich diddordebau clinigol, maes arbenigedd, argaeledd a lleoliad ac ati.




GIG
CYMRU
NHS
WALES
Addysg a Gwellu Iechyd
Cymru (AaGIC)
Health Education and
Improvement Wales (HEIW)

Mae allwedd i'r calendr sy'n dangos i chi beth yw ystyr y gwahanol liwiau ac eiconau sy'n ymddangos yn y calendr. Dylech gyfeirio at allwedd y calendr i weld y gwahanol liwiau ac eiconau a fydd yn ymddangos yn eich calendr.

> Calendar Key

Today's Date	Available Date
Proposed Meeting	Booked Meeting
Meeting Completed	Appraisal Completed



Mae MARS nawr yn eich gwneud ar gael yn awtomatig i Arfarneion cyn gynted ag y bydd eich cyfrif yn cael ei greu, ond os ydych chi am bennu dyddiadau penodol, bydd angen i chi wneud hyn drwy'r calendr.

Mae'r blychau gwyrdd sydd wedi'u hamlygu yn y calendr yn dangos yr argaeledd hwn (yn yr enghraifft hon mae'r argaeledd ar ddydd Llun ym mis Ionawr).


I osod argaeledd, cliciwch ar yr eicon 'Rheoli Argaeledd' yng nghornel dde uchaf y calendr ei hun, sydd wedi'i amlygu gyda chylch glas ar ddelwedd y calendr yn flaenorol. Ar ôl i chi glicio ar yr eicon hwn, bydd y sgrin opsiwn Rheoli Argaeledd glas yn ymddangos.

Yma gallwch dynnu sylw at ddiwrnodau neu amserlenni pan fyddwch yn rhydd ar gyfer Arfarniad yn ystod y mis.

Gallwch ddewis diwrnodau pan fyddwch ar gael neu gyfnodau o amser drwy ddefnyddio'r swyddogaeth 'O' ac 'I'. Os ydych chi'n dewis argaeledd am gyfnod hir, cofiwch y bydd angen i chi ddileu pob dyddiad os byddwch chi'n gwneud camgymeriad.

Gallwch hefyd ddewis argaeledd drwy ddangos cyfres o ddyddiadau pan fyddwch ar gael. Er enghraifft, yn y ddelwedd isod, mae'r arfarnwr wedi nodi ei fod ar gael i arfarnu bob dydd Llun, dydd Mawrth, dydd Mercher, dydd Iau a dydd Gwener ym mis Ionawr 2021, ac ar gael drwy'r dydd yn yr opsiwn 'AM/PM', yna dewis 'Ychwanegu Argaeledd'.

Bydd yr argaeledd hwn wedyn yn ymddangos yn y calendr gyda blychau gwyrdd wedi'u tywyllu.



Efallai y byddwch yn penderfynu na fyddwch yn gosod slotiau argaeledd yn eich calendr a byddai'n well gennych osod argaeledd misol. Mater o ddull yw hynny, rydym yn cydnabod bod Arfarnwyr yn hoffi gweithio mewn ffyrdd gwahanol.

Gallwch hefyd ddewis peidio bod ar gael am fis (er enghraifft, roeddech i ffwrdd ym mis Chwefror neu heb allu i arfarnu) – bydd clicio ar y mis a nodir yn y blwch yn newid y lliw o wyrdd i lwyd – os yw'r blwch yn llwyd, ni fyddwch ar gael.

i arfarnu yn y mis hwnnw. Mae MARS yn rhagdybio eich bod ar gael bob mis. Os nad ydych yn dymuno bod ar gael, **bydd angen i chi sicrhau bod y blwch yn llwyd, nid yn wyrdd.**

Os bydd Arfarnai yn ceisio eich dewis yn ystod mis pan nad ydych ar gael, bydd yn cael ei hysbysu gan hysbysiad nad yw'n ymddangos eich bod ar gael yn y mis hwnnw.



Gallwch hefyd ddewis a yw'r wybodaeth rydych chi'n ei gweld yn dangos eich calendr cyfan neu'n dangos argaeledd drwy'r blwch Chwarterol. Bydd cyfarfodydd a archebir yn ymddangos ar y calendr ac yn y blwch hwn.

Calendar View

Quarterly View

←

Jan - Mar 2021

→

Current Quarter


All Upcoming

Meeting date key: ✓ Confirmed ⚠ Unconfirmed

Doctor Name	Meeting Date	Information	Status	Delete
Doctor Account	14/01/2021 ✓		✓ Complete	

O'r dudalen hon, gallwch hefyd weld eich dyraniad - mae 'Gweld Dyraniad' yn nodi faint o grynodedau / arfarniadau y dylech eu cynnal. Os ydych chi'n Feddyg Teulu, y Swyddog Arfarnu yn yr Uned Cymorth Ailddilysu (RSU, AaGIC) sy'n pennu eich cwota. Os ydych chi'n feddyg Gofal Eilaidd, y tîm Ailddilysu yn eich Bwrdd Iechyd sy'n pennu eich cwota.

Mae botwm iCal ar ochr dde uchaf y calendr hefyd – mae'r botwm hwn yn cysoni eich calendr MARS â'r un ar eich cyfrifiadur, eich tabled neu'ch dyfais ddigidol.



View Annual Quota

Appraisal Year	Annual Quota
× Close	



Gallwch hefyd wirio eich capasiti neu'ch cwota drwy'r botwm trosolwg Capasiti/Cwota - os byddwch chi'n clicio ar y botwm Gweld Capasiti/Cwota, bydd yn rhoi trosolwg byr i chi o unrhyw arfarniadau rydych chi wedi'u cynnal neu wedi'u cwblhau.




Capacity/Quota Summary							
Appraiser Fullname	Quota	Meetings Complete ⓘ	Meetings Booked ⓘ	Meeting Date Confirmation Pending ⓘ	Accepted Requests (No dates sent) ⓘ	Requests Pending ⓘ	Total ⓘ
Doctors Account		0	0	0	1	0	1

×



 Close

Trefnu Cyfarfod Arfarnu

Ar yr amod eich bod ar gael o fewn Chwarter Presennol neu Chwarter Nesaf y meddyg, gall eich dewis i fod yn Arfarnwr iddo. Pan fydd hyn yn digwydd, byddwch yn cael gwybod drwy e-bost a bydd y blwch Ceisiadau am Arfarnwr yn cynnwys rhif.



Os byddwch chi'n clicio'r blwch Ceisiadau am Arfarnwr, bydd blwch dewis newydd yn ymddangos lle gallwch chi gadarnhau neu wrthod y cais gan y meddyg. Os ydych chi'n dymuno derbyn y cais hwn, bydd angen i chi ddewis yr eicon tic gwyrdd, i'w wrthod defnyddiwch y botwm 'x' coch. Gallwch weld rhagor o wybodaeth am yr Arfarnai posibl drwy glicio ar ei enw.



Os ydych chi'n fodlon arfarnu'r unigolyn hwn, y cam nesaf yw i chi gynnig dyddiad cyfarfod penodol. Gallwch wneud hyn drwy glicio ar y blwch Disgwyl Dyddiadau Cyfarfodydd, a fydd yn awr yn dangos i chi faint o gyfarfodydd arfarnu y mae'n rhaid i chi eu trefnu.

Unwaith y byddwch yn clicio ar y blwch Disgwyl Dyddiadau Cyfarfodydd cewch gyfle i drefnu cyfarfod gyda'r meddyg y byddwch yn ei werthuso.

Appraisees Awaiting Meeting Dates

The following doctors are waiting for meeting dates to be suggested to them. Click on the Dr's name to view their profile.

Icon Key: 📅 Send a meeting date(s) ⚠️ Doctor has declined previously sent dates 🔄 Reset your connection with this doctor

Dr name	Last appraisal	AQ	Year	Preferred appraisal month	Action
Doctor Account		Jan-Mar	2021	January	📅 🔄

🔍 Close

I awgrymu sawl dyddiad cyfarfod i Arfarnai unigol, mae angen i chi bwysu'r calendr yn y golofn Gweithredu. Ar ôl i chi glicio'r botwm calendr, bydd blwch arall yn ymddangos, ac yma gallwch awgrymu hyd at 3 dyddiad ac amser i'r person y byddwch yn ei werthuso, dim ond o blith y dyddiadau a'r amseroedd y byddwch yn eu darparu y gall meddygon ddewis.

Sylwch y gallwch hefyd weld y mis arfarnu sy'n cael ei ffafrio gan y meddyg yma.

Bydd hysbysiad rhybudd oren yn ymddangos yn y blwch uchod os ydych chi wedi cynnig yr un dyddiad i Feddyg arall.

Ar ôl i chi ddewis hyd at dri dyddiad ar gyfer eich Arfarnai, pwyswch y botwm 'Anfon'. Mater i'r Arfarnai wedyn yw dewis pa ddyddiad ac amser sy'n gweddu orau iddo.

Y dyddiad y cyfarfod cyntaf a gynigir i feddygon fydd dyddiad y cyfarfod - oni bai fod MARS yn cael ei hysbysu fel arall.



Christopher Price - GMC: 3086153

You can suggest several dates to the doctor, of which they will choose one. Or they can reject them all, if they are unsuitable. Please note MARS will use the soonest date as a default appraisal meeting date, unless confirmed otherwise.

The actual meeting date can be changed/confirmed by you when compiling the doctor's appraisal summary.

The Doctor's has requested the month of **October** for their appraisal meeting.

Date: 05/03/2020 Time: 14:32 [Choose Date\(s\)](#)

Selected Dates:

- 20/02/2020 10:32 ✖
- 20/02/2020 04:32 ✖
- 05/03/2020 04:32 ✖
- 05/03/2020 14:32 ✖

Meeting Information: Venue, time, directions etc...

[Send](#) [Cancel](#)

Send a date - 7th September 2017

Please note This appointment will be a booked/confirmed meeting. This date needs to have been discussed and confirmed with the doctor before adding directly to your calendar.

Date	Appraisee	Meeting Information
07/09/2017 00:00	Steffan Biggs	Venue, time, directions etc...

September 2017

Su	Mo	Tu	We	Th	Fr	Sa
27	28	29	30	31	1	2
3	4	5	6	7	8	9
10	11	12	13	14	15	16
17	18	19	20	21	22	23
24	25	26	27	28	29	30
1	2	3	4	5	6	7

Send Close

Ar ôl cysylltu, os byddwch yn clicio dyddiad penodol yn y calendr, bydd blwch arall yn ymddangos ar y sgrin a byddwch yn gallu awgrymu dyddiad cyfarfod ar gyfer yr unigolyn hwn.


Awaiting Responses

List of proposed meeting dates which are awaiting a response from the doctor. Click on the Dr's name

Dr Name	Proposed Date
Jo Small	08/11/20

Wrth i chi aros i'r Arfarnai ymateb, bydd rhif yn y blwch Aros am Ymateb.

Bydd yr Arfarnai yn parhau i dderbyn hysbysiadau yn ei atgoffa bod angen iddo ymateb i awgrym y cyfarfod hyd nes y bydd wedi gwneud hynny. Os ydych chi'n dymuno newid y dyddiadau rydych chi wedi'u cynnig cyn i Arfarnai ymateb, gallwch wneud hyn drwy glicio'r blwch Disgwyl am Ymateb. Os ydych chi'n dymuno canslo'r dyddiadau cyfarfod arfaethedig pwyswch yr eicon croes goch wrth ymyl y dyddiad. Os byddwch yn gwneud hyn ar gyfer pob un o'ch dyddiadau, cewch gyfle i ailddewis pob un o'r dyddiadau.



Ar ôl i'r Arfarnai dderbyn dyddiad cyfarfod rydych chi wedi'i awgrymu, bydd y dyddiad a'r amser a ddewiswyd yn ymddangos yn eich calendr.


Meetings

Calendar View Quarterly View

February 2021

Sun	Mon	Tue	Wed	Thu	Fri	Sat
31	1	2	3	4	5	6
7	8	9	10	11	12	13
14	15	16	17	18	19	20
21	22	23	24	25	26	27

15:00 Admin Appointment




nwaith y bydd Arfarnai wedi derbyn eich cais, ar yr amod eich bod o fewn 30 diwrnod i ddyddiad eich cyfarfod, byddwch yn gallu gweld yr wybodaeth ar gyfer yr arfarniad ac yn gallu dechrau paratoi crynodeb o wybodaeth am yr arfarniad. Byddwch yn gwybod bod hyn yn digwydd gan y bydd y blwch 'Crynodebau ar y gweill' yn cael ei lenwi.




Gweld a Chreu Crynodeb o'r Arfarniad


I weld yr wybodaeth y mae'r meddyg wedi'i chynnwys fel rhan o'i arfarniad, gallwch glicio ar y blwch 'Crynodebau ar y gweill' ac yna glicio ar yr eicon papur yn y golofn Gweld Crynodeb.



Gallwch hefyd wneud hyn o'r dudalen Arfarnwr > Arfarniadau: cliciwch naill ai ar y ddogfen (eicon papur) neu llwytho i lawr (eicon saethau) yn yr adran 'Gwybodaeth am Arfarniad' i weld neu lwytho'r wybodaeth i



Gallwch wedyn weld gwybodaeth arfarnu, parthau dethol a darparu gwybodaeth ategol.



GIG
CYMRU
NHS
WALES

Addysg a Gwella Iechyd
Cymru (AaGIC)
Health Education and
Improvement Wales (HEIW)

Pan fyddwch yn barod i ddechrau creu crynodeb o'r arfarniad, ewch i'r dudalen creu crynodeb.

 **Appraisals** Current and previous Appraiser details, meetings and summaries

[Current Appraisals](#) [Previous Appraisals](#)

Show entries

Meeting Date	First Name	Last Name	Email	AQ	OOQ	App. Info.	Summary Builder
19/01/2021 00:00	Doctor	Account	fake_Doctor@wales.nhs.uk	Jan-Mar 2021	✕	 	 

Showing 1 to 1 of 1 entries

Os byddwch yn dewis y botwm gweld a golygu (yr eicon papur) byddwch yn mynd i'r dudalen 'Trosolwg' lle gallwch weld gwybodaeth am gywirdeb a datganiad.

Mae swyddogaeth yma lle gallwch hefyd ddatgloi'r adran '**cywirdeb a datganiadau**' ar gyfer meddyg. Efallai y bydd angen gwneud hyn os oes angen gweithredu ar newid neu os oes camgymeriad wedi'i wneud gan y meddyg wrth fewnbynnu'r wybodaeth yn wreiddiol.

 **Summary Builder** Appraisal summary for Doctor Account

[Overview](#) [Information](#) [Constraints](#) [Insights & Reflections](#) [PDP](#) [Revalidation](#)

Appraisal Summary Declaration

By committing this summary you confirm that either:-

- An appraisal has taken place that reflects the scope of the doctors work.
- A review of last year's personal development plan has taken place and any reasons for non-completion are recorded.

Or

- I have completed the appropriate governance protocol

Appraiser: Appraiser Account
Meeting Date: 27/01/2021
Virtual Appraisal: No
Summary Committed: ✕
Summary Agreed: ✕

Professional Context [Add information](#)

► **Probity and Declarations**

Unlock Declarations for Doctor  [Unlock](#) 

Confirm Personal and Professional Details (Scope of Work) [View Doctor details](#) [Unagreed](#)

Probity (Good Medical Practice) [Agreed](#)

Probity (Appraisal Material) [Agreed](#)

Health [Agreed](#)

Directives or Suggestions from Outside Agencies [Agreed](#)


Complaints [Agreed](#)

Safeguarding Level 1

Training Role(s) No training role

Appraiser Comments [Add information](#)

Bydd yr adran '**Arfarniad Rhithiol**' yn rhoi Na yn ddiofyn, bydd y cyfle i newid hyn yn codi pan fyddwch yn gosod y cyfarfod fel un 'wedi ei gwblhau'.



Rydym wedi sylweddoli bod gwahanol arfarnwyr yn hoffi creu crynodebau arfarnu ychydig yn wahanol (ac rydym yn sylweddoli bod gan Fyrddau lechyd wahanol ofynion ar gyfer cynnwys crynodebau arfarnu) felly rydym wedi sicrhau dull gweithredu hyblyg ar gyfer cofnodi a dadansoddi gwybodaeth arfarnu.

Summary Builder Appraisal summary for Doctor Account

The screenshot shows the 'Summary Builder' interface for a Doctor Account. The 'Information' tab is selected. At the top, there are buttons for 'Overview', 'Information', 'Constraints', 'Insights & Reflections', 'PDP', and 'Revalidation'. Below these, there are two buttons: 'Add Doctor's Information' and 'Create New Information', which are circled in red. The main area displays a table with three rows of appraisal information. The first row is for 'Domain 1 - Knowledge, Skills and Performance' and includes fields for 'Activity/Achievement', 'Title of event', 'Skills', 'Patient Feedback', 'Feedback good', 'Available Supporting Documentation', and 'Discussion and Feedback from Appraiser'. The second row is for 'Activity/Achievement' and includes fields for 'Title of event', 'Skills', 'Activity', 'Reason', 'Reflection', 'Outcome', 'Available Supporting Documentation', and 'Discussion and Feedback from Appraiser'. The third row is for 'Activity/Achievement' and includes fields for 'Title of event', 'Skills', 'Activity', 'Reason', 'Reflection', 'Outcome', 'Available Supporting Documentation', and 'Discussion and Feedback from Appraiser'.

Ar y tab 'Gwybodaeth', gallwch weld yr wybodaeth arfarnu a roddwyd gan feddyg. Yma, gallwch drosglwyddo gwybodaeth y meddyg o'r crynodeb rydych chi'n ei greu drwy'r botwm 'Ychwanegu Gwybodaeth am y Meddyg', neu gallwch ddewis 'Creu Gwybodaeth Newydd'.

Pan fyddwch yn ychwanegu gwybodaeth o ffolder meddyg, gallwch ddewis pa feysydd i'w cynnwys gan ddefnyddio'r blwch ticio dewis ar y dde. Neu, gallwch ychwanegu'r holl wybodaeth drwy glicio'r botwm Glas 'Ychwanegu pob gwybodaeth'.


The screenshot shows a dialog box titled 'Add Appraisal Information to Summary'. It contains a table with appraisal information and checkboxes for selection. The table has columns for 'Type', 'Title', 'Domain', 'Supporting Documentation', and 'Selection'. The rows are: 'Personal Information' (Skills, Domain 1 - Knowledge, Skills and Performance, CPD), 'Patient and Colleague Feedback' (Feedback good, Colleague Feedback Patient Feedback), 'Review of Clinical Outcomes' (Review of outcomes, Domain 1 - Knowledge, Skills and Performance), and 'Personal Information' (MARS training, Domain 1 - Knowledge, Skills and Performance, Training). At the bottom, there are buttons for '+ Add All Information', '> Add/merge Selected', and 'x Close'.

Os byddwch yn dewis 'Ychwanegu Pob Gwybodaeth', trosglwyddir yr holl wybodaeth drosodd yn hytrach na rhoi tic yn y blychau.

Yna caiff ei rhoi yn y parthau y mae'r Arfarnai wedi'u dewis ynghyd â'r holl wybodaeth ategol.

Swyddogaeth arall y dudalen creu crynodebau yw eich bod nawr yn gallu grwpio cofnodion gan ddefnyddio'r botwm ychwanegu/cyfuno. Bydd hyn yn dod â darnau o wybodaeth at ei gilydd, ac yn eich galluogi i ddewis categori a pharth ar gyfer set o gofnodion y credwch y dylent fod gyda'i gilydd. Gallwch wneud hyn hyd yn oed os nad yw Arfarnai'n gwneud hynny.

Os ydych chi am ddefnyddio 'Ychwanegu/cyfuno'r Rhai a Ddewiswyd', bydd angen i chi ddewis y cofnodion i'w cyfuno.



the "Login As" function. [Revert to your original role.](#)

Add Appraisal Information to Summary


Select appraisal information would you like to add. You can select up to X to be merged together in the next step.

Choosing to "Add All Evidence" (bottom left) will add all the of Dr's information to the summary under the sections chosen by the Dr.

Type	Title	Supporting Documentation	Selection
Personal Information	test 1		☒
Team Information	test 2		☒
Patient and Colleague Feedback			☒

[+ Add All Information](#)
[+ Add/merge Selected](#)
[x Close](#)

Byddwch wedyn yn mynd i'r dudalen nesaf lle gallwch ddewis pa agweddau ar yr wybodaeth i'w cynnwys.



Appraisal Information

[Check all fields](#)

Personal Information - 18/01/2021 15:45


Domain:	Domain 1 - Knowledge, Skills and Performance		
Category:	CPD		
Title of event	Skills		☒
Activity			☐
Reason			☐
Reflection			☐
Outcome			☐

Patient and Colleague Feedback - 18/01/2021 15:47


Domain:	Colleague Feedback Patient Feedback		
Category:	Feedback		
Patient Feedback	Feedback good		☒
Colleague Feedback	Feedback good		☐

[< Back](#)
[+ Add Selected](#)
[x Close](#)


Yna bydd angen i chi ddewis pa dystiolaeth ategol i'w chario drosodd yn y sgrin ganlynol, ynghyd â'r 'Parth' i'w hychwanegu ato.




Bydd hyn wedyn yn arwain at gyfuno'r testun, a'r dystiolaeth ategol, yn y 'Parth' a ddewiswyd, fel un cofnod.




Defnyddiwch y blychau ticio i ddewis pa wybodaeth yr hoffech ei hamlygu ac yna cliciwch '+Ychwanegu'r rhai a ddewiswyd' i ychwanegu'r wybodaeth hon.



Ar ôl i chi ychwanegu gwybodaeth, cewch gyfle i roi eich dadansoddiad eich hun. Gallwch newid y templed y mae'r wybodaeth wedi'i rhoi ynddo a gallwch roi parth a chategori priodol. Gall hyn fod yn wahanol i ddewisiadau a roes y Gwerthusai. Ar ôl i chi roi'r wybodaeth, pwyswch 'Cadw' i roi'r wybodaeth hon yn y crynodeb.



Gwybodaeth Ategol



Ticiwch y blwch 'Gwybodaeth Ategol sydd ar gael' os ydych yn dymuno cynnwys gwybodaeth ategol yn y crynodeb yr ydych yn ei greu.


Yn y blwch 'Trafodaeth ac Adborth gan Arfarnwr', gallwch ychwanegu sylwadau sy'n seiliedig ar drafodaethau rydych chi wedi'u cael gyda'r Arfarnai.

Wrth edrych ar wybodaeth, gallwch ddileu adrannau drwy glicio ar y symbol 'x' coch. Drwy glicio ar yr eicon beiro, gallwch hefyd olygu gwybodaeth.



Mae'r botwm 'Creu Gwybodaeth Newydd' yn rhoi'r cyfle i chi ychwanegu gwybodaeth nad yw eisoes wedi'i chofnodi gan Arfarnai (er enghraifft, unrhyw beth a drafodwyd yn y cyfarfod arfarnu, ac ati). Gallwch ddewis parth a chategori a rhoi gwybodaeth fel y bo'n briodol.

 Create New Information



Cyfyngiadau

Mae'r dudalen 'Cyfyngiadau' yn dilyn fformat tebyg i'r dudalen flaenorol, sy'n caniatáu i chi weld, ychwanegu a rhoi gwybodaeth. Pan fyddwch yn clicio'r feiro a'r papur yn y golofn dde, gallwch weld sylwadau'r meddyg ynghylch y cyfyngiadau hyn a hefyd greu cyfyngiadau newydd nad oeddent wedi'u cynnwys i ddechrau. Gallwch hefyd olygu a dileu sylwadau a ysgrifennwyd gan yr Arfarnai. Mae'r swyddogaeth hon wedi'i chynnwys mewn achos lle mae'r meddyg wedi cynnwys gwybodaeth sy'n caniatáu adnabod unigolion neu wybodaeth amhriodol arall.

Summary Builder Appraisal summary for Doctor Account

Overview	Information	Constraints	Insights & Reflections	PDP	Revalidation
Constraint		Doctor Comment	Appraiser Comment		
Personal constraints					
IT skills		Training needed			
Hospital constraints					
Service constraints					

Yn yr adran 'Mewnwelediad a Myfyrdodau' ar y dudalen hon, gallwch weld y myfyrdodau ar gynydd a'r anghenion datblygu a nodwyd gan yr Arfarnai. Gallwch roi sylwadau yma drwy glicio'r eicon beiro a phapur yn yr adran Sylwadau'r Arfarnwr.


Summary Builder Appraisal summary for Doctor Account

Overview	Information	Constraints	Insights & Reflections	PDP	Revalidation
Reflections					
Progress Reflection		Reflection			
Development Needs					
Appraiser Comments					
					

Ar y dudalen CDP gallwch weld cynnydd a chynlluniau datblygiad personol yr Arfarnai – gallwch roi sylwadau ar weithgareddau'r CDP presennol a'u golygu yn yr adran 'Gweithgareddau y cytunwyd arnynt'. Os nad yw meddyg wedi cwblhau agweddau ar ei CDP, gallwch ei symud o'r arfarniad diwethaf i'w CDP presennol yn 'Gweithgareddau y cytunwyd arnynt'.

Summary Builder Appraisal summary for Steffan Biggs

Overview	Information	Constraints	Insights & Reflections	PDP	Revalidation
Agreed Activities Agreed to be completed from this Appraisal					
Area	What/Description	Why	How	Who	Outcome
From Last Appraisal Agreed to be completed from last Appraisal					
Area	What/Description	Why	How	Who	Outcome
Aspirational Activities completed this appraisal period or for future appraisals					
Area	What/Description	Why	How	Who	Expected Completion Date
Domain 1 - Knowledge, skills and Performance	- test	test	test	test	test



Trafodir nodau uchelgeisiol gyda'r Arfarnai yn y cyfarfod arfarnu, a gallwch benderfynu a ddylid eu hychwanegu at y 'Gweithgareddau y cytunwyd arnynt' ai peidio. Gallwch yn awr hefyd 'ychwanegu gweithgarwch newydd' os yw cofnod y CDP wedi'i drafod yn y cyfarfod ond heb ei gynnwys o'r blaen yn yr wybodaeth arfarnu.



Addysg a Gwellu Iechyd
Cymru (AaGIC)
Health Education and
Improvement Wales (HEIW)

Tudalen Ailddilysu

Ar y dudalen Ailddilysu dylech gadarnhau a yw'r meddyg wedi bodloni ei ofynion ailddilysu ar gyfer yr arfarniad hwn. Rhaid i chi gofio pwyso'r botwm 'Cadw Newidiadau Ailddilysu' i wneud yn siŵr bod pob gweithred yn cael ei chadw. Allwch chi ddim cadarnhau crynodeb nes bydd yr adran hon wedi'i llenwi.

Summary Builder Appraisal summary for Christopher Price

OverviewInformationConstraintsInsights & ReflectionsPDPRevalidation

Please use the current appraisal section below to confirm whether the doctors has fulfilled their revalidation requirements for this appraisal. Please remember to 'save'

Revalidation Date13/07/2024

Current Appraisal

	Complete	Needs more work	Not in appraisal
Scope of work Important Information	☒	☐	☐
Comments: Max 136 characters			
PDP Reviewed Important Information	☐	☐	☒
Comments: Max 136 characters			
CPD Important Information	☐	☐	☒
Comments: Max 136 characters			
Probity & Health declarations Important Information	☒	☐	☐
Comments: Max 136 characters			
Review of Complaints and Compliments Important Information	☐	☐	☒
Comments: Max 136 characters			
Significant Events Important Information	☐	☐	☒
Comments: Max 136 characters			
Supporting Information - Quality Improvement Activity Important Information	☐	☐	☒
Comments: Max 136 characters			
Patient Feedback Important Information	☐	☐	☒
Comments: Max 136 characters			
Colleague Feedback Important Information	☐	☐	☒
Comments: Max 136 characters			
Whole Practice Appraisal Important Information	☐	☐	☒
Comments: Max 136 characters			
Save Revalidation Changes			

Os nad yw adran wedi'i chynnwys yn yr arfarniad eleni, dewiswch y golofn goch 'Nid yw'n rhan o'r arfarniad'.




Addysg a Gwellu Iechyd
Cymru (AaGIC)
Health Education and
Improvement Wales (HEIW)

Mae'r dudalen hon hefyd yn rhoi gwybod i chi am ddyddiad Ailddilysu'r meddyg a'r dyddiad Cwblhau yw'r dyddiad y byddai'r Swyddog Cyfrifol wedi gwneud yr argymhelliad.

Please use the current appraisal section below to confirm whether the doctor has fulfilled their revalidation requirements for this appraisal. Please remember to 'save' your changes using the button at the bottom of this page.

Revalidation Date	Completion Date
13/07/2024	



Mae adrannau ar y dudalen ailddilysu hon hefyd lle gallwch weld arfarniadau blaenorol y meddyg.

Ewch i 'Arfarniadau' ac yna mae'r golofn olaf ar gyfer yr 'Arfarniad Diwethaf', yna cliciwch ar yr eicon papur (bydd hyn yn dangos crynodeb o arfarniad diwethaf y meddyg).

Mae llinell lle gallwch ychwanegu sylwadau ar gyfer pob un o'r gofynion Ailddilysu, drwy deipio yn yr adran 'Sylwadau' o dan bob pennawd.

	Current Appraisal	Completed Appraisals	
	Complete	Needs more work	Not in appraisal
Scope of work Important Information	☐		☒
Comments: Max 136 characters			
PDP Reviewed Important Information	☐	☐	☒

Byddai unrhyw sylwadau a nodwyd fel y rhai uchod wedyn yn ymddangos ar y Dudalen Cynnydd Ailddilysu ar gyfer y meddyg.

Appraiser Comments for RO

Test for Doctor view - can jo see this in Dr role?

Close

Revalidation Progress

Key for icons:

- ☒ Edit exceptional circumstances
- ☒ Appraisal
- ☒ View appraisal summary
- ☒ Not complete

Current Revalidation cycle to 2nd June 2015

These are the appraisals that will be included in your current revalidation cycle.

	Current Appraisal
Exceptional Circumstances	☒
Scope of work	☒
PDP Reviewed	☒
CPD	☒
Probity & Health declarations	☒
Review of Complaints and Compliments	☒
Significant Events	☒



\$MARS
Medical Appraisal
Revalidation System



GIG
CYMRU
NHS
WALES

Addysg a Gwella Iechyd
Cymru (AaGIC)
Health Education and
Improvement Wales (HEIW)

Cyflwyno Crynodeb o'r Arfarniad

Ar ôl i'r cyfarfod gael ei gynnal, gallwch ddewis y blwch 'Cyfarfod wedi'i gwblhau' ar y dudalen 'Arfarniadau'.

Current Appraisals										
Previous Appraisals										
Show	10	entries								
Meeting Date	First Name	Last Name	Email	AQ	OOQ	App. Info.	Summary Builder	Ext. Circ.	Meeting Complete	Commit Summary
27/02/2020 08:00	Beccy	Newton	rebecca.newton@wales.nhs.uk	Jan-Mar 2020	x				☐	Pending
10/03/2020 00:00	Christopher	Price	pricec1@cardiff.ac.uk	Oct-Dec 2020	✓				☐	Pending

Showing 1 to 2 of 2 entries

Meeting Completion Date

Please confirm the meeting completion date for Dr Doctor Account

Meeting date: 27-01-2021

Virtual appraisal: ☒ Yes ☐ No

Application used for the virtual appraisal: Please Select

- Facetime
- Google Duo
- Microsoft Teams
- NHS Video conferencing
- Skype
- WhatsApp
- Zoom
- [Other]

Please Note:

- The action cannot be selected for Doctor (stored on MARS)
- By ticking the meeting will not be a

Save Cancel

Bydd hyn wedyn yn agor blwch yn gofyn i chi gadarnhau dyddiad y cyfarfod, ac mae hefyd yn tynnu sylw at y ffaith na ellir dadwneud y weithred hon ar ôl ei thicio a bydd datganiadau'r meddyg wedi'u cloi ac ni ellir eu golygu, felly bydd angen i chi wneud yn siŵr bod y rhain wedi'u cwblhau'n gywir.

Mae angen i chi hefyd gadarnhau bod yr arfarniad wedi ei gynnal ar-lein. Os byddwch chi'n dewis 'Do', bydd angen i chi ddewis pa becyn rhaglenni rydych chi wedi'i ddefnyddio (e.e. Microsoft Teams / Skype / Zoom ac ati)

Mae'r wybodaeth hon yn cael ei throsglwyddo i grynodeb arfarnu'r meddyg, ac fel y gwelwch yn yr enghraifft isod, nodwyd bod yr arfarniad wedi ei gynnal ar-lein, drwy raglen Microsoft Teams, ond os ydych chi wedi ateb na, yna bydd yn dweud 'Na'.

Appraisal Summary for Christopher Price GMC#:3086153

Overview Information Constraints PDP Activities Revalidation






Download PDF

Appraiser:	Jo Small	Virtual Appraisal:	Yes - Microsoft Teams
Meeting Date:	06/10/2020	Summary Committed:	09/10/2020

Ar ôl i chi lenwi'r holl adrannau angenrheidiol, gallwch gyflwyno'r crynodeb i'w adolygu. I wneud hyn, mae angen i chi glicio yn y blwch 'Cyflwyno Crynodeb'. Yna bydd yr Arfarnai yn gallu derbyn neu wrthod y crynodeb rydych chi wedi'i greu.

Os ydych chi'n gweld bod y golofn 'Cwblhawyd y Cyfarfod' wedi'i lliwio'n llwyd ac wedi'i thicio, mae angen i chi wneud yn siŵr eich bod wedi cadarnhau bod y cyfarfod wedi'i gynnal cyn cyflwyno'r crynodeb.

Wrth i chi aros i weld a yw eich Arfarnai yn hapus gyda'i grynoded, bydd rhif yn y blwch 'Crynodebau ar y gweill' ar y dudalen 'Arfarnwr > Rheoli'.



Yn yr enghraifft uchod, mae 2 grynoded ar y gweill gan fod yr Arfarnwr yn aros i 2 Arfarnai dderbyn neu wrthod eu crynodebau. Os bydd yr Arfarnai'n derbyn y crynodeb, yna rydych chi wedi cwblhau'r broses arfarnu ar gyfer yr Arfarnai hwnnw.

Os yw'r Arfarnai yn anghytuno, yn credu bod gwallau neu os oes angen newid rhywbeth, gall ddefnyddio'r swyddogaeth anghytuno. Bydd yn rhaid iddo esbonio'r rheswm dros y gwrthodiad hwn a gallwch adolygu ei sylwadau yn unol â hynny. Yna, bydd eicon coch 'Gwrthodwyd' yn ymddangos yn y golofn 'Cyflwyno Crynodeb'. Os byddwch chi'n clicio'r adran 'Sylwadau' sydd ar ffurf swigen siarad las, byddwch chi'n gallu gweld y rhesymau dros wrthod.



Os yw'n briodol, gallwch newid y wybodaeth yn ôl y gofyn a chyflwyno'r crynodeb eto i'w adolygu. Os ydych chi'n anghytuno â'r rhesymau a nodir dros wrthod, efallai y bydd anghydfod yn codi – edrychwch ar y protocol eithriadau yn y llyfrgell o ddogfennau allweddol ar ein tudalen Cwestiynau Cyffredin (dolen ar ddiwedd y ddogfen) i gael rhagor o wybodaeth am hyn neu anfonwch e-bost at dîm Desg Gwasanaeth MARS.

Argraffu Gwybodaeth Arfarnu

Gallwch lawrlwytho ac argraffu Crynodeb o Arfarniad neu Wybodaeth am Arfarniad gan ddefnyddio'r swyddogaeth lawrlwytho. Ar ôl i chi lwytho'r crynodeb i lawr, bydd yn troi'n PDF – gallwch ei argraffu fel y byddech yn ei wneud gyda ffeil arferol.

Os byddwch yn lawrlwytho neu'n argraffu'r ffeiliau hyn, dylech sicrhau eich bod yn cadw at yr egwyddorion cyfrinachedd y cytunwyd arnynt. Mae gwybodaeth arfarnu yn gyfrinachol iawn. Gwnewch yn siŵr eich bod yn cael gwared ar wybodaeth wedi'i hargraffu'n ddiogel ar ôl ei defnyddio, a'ch bod hefyd yn dileu'n barhaol wybodaeth rydych chi'n ei llwytho i lawr ar gyfrifiadur personol neu gyfrifiadur yn y gwaith. I gael rhagor o arweiniad, cysylltwch â'n tîm ar Ddesg Gymorth MARS.





Addysg a Gwellu Iechyd
Cymru (AaGIC)
Health Education and
Improvement Wales (HEIW)

Dadansoddeg Adborth

Mae Dadansoddeg Adborth ar gael o dan y drydedd cwmprestr ar gyfer y rôl 'Arfarnwr' ac fe'i defnyddir i weld adborth dienw gan y meddygon rydych chi wedi'u harfarnu.


I ddadansoddi'r data, dewiswch 'Dadansoddeg Adborth' ac yna bydd hyn yn dangos meysydd gwag y bydd angen i chi eu llenwi er mwyn cynhyrchu adroddiad. Mae dau arolwg ar gael, yr arolwg cychwynnol (Arolwg Adborth yr Arfarniad wedi'i Gau) a'r ail arolwg (arolwg Adborth Arfarniad Meddygol – yn fyw, wedi'i ryddhau Hydref 2020).

Gallwch ddewis edrych ar wahanol agweddau ar yr arolwg (o dan 'Tudalennau'), a gallwch ddod o hyd i chi eich hun drwy ddefnyddio'r hidlydd Arfarnwr, dewis y cyfnod amser ac wedyn rhedeg cynhyrchu'r adroddiad drwy bwyso'r botwm Chwilio gwydd.



Mae Dadansoddeg Adborth yn rhoi adborth i chi o'r arolwg adborth arfarniad y gofynnir i feddygon ei lenwi ar ôl cwblhau arfarniad.

Os ydych chi wedi cwblhau mwy na 3 arfarniad, bydd y data'n cael ei amlygu yn y golofn gyntaf, gyda'r data'n wyrdd, bydd y siart cylch yn y golofn nesaf yn cymharu eich data ar lefel y Bwrdd Iechyd cyflawn. Mae'r dewis hwn yn caniatáu argraffu'r data (felly gellir ei gadw drwy PDF yma) ond ni ellir ei lwytho i lawr i Excel.



Cadw eich Arolwg Adborth ar Arfarnwyr MARS mewn fformat PDF

Ar ôl i chi ddewis yr arolwg, cliciwch y botwm 'Argraffu' ar ochr dde'r dudalen. Bydd hyn wedyn yn agor ffenestr newydd a bydd angen i ddewis 'Cadw fel PDF'. Yna bydd modd i chi gadw'r arolwg hwn ar y ddyfais rydych chi'n ei defnyddio ac yna ei agor mewn fformat PDF.

Survey Results Information

Published Survey: Medical Appraisal Feedback Survey - Live

Pages: The Appraisal, The administration and the management of the appraisal system, The Appraiser, The Appraisal Overall

Appraisers: Owen, Ellie

From: 2021 To: 2021

Search

As an Appraiser, you're able to view anonymised feedback from the doctors you have appraised since August 2017. To ensure anonymity, these are released in batches/multiples of 3. Therefore you must have completed at least 3 since then to view the results. If you have completed 5 appraisals for example, you will only be able to view 3 feedback responses until you have completed a 6th appraisal. Please select the 'From' and 'To' year above to view the feedback. If you want to view feedback for 2018 you should select both the 'From' and 'To' box as 2018. To view feedback from 2017 to 2018, please select 'From' as 2017 and 'To' as 2018.

Survey results for: Medical Appraisal Feedback Survey

8 The Appraisal Overall

Print

Gwybodaeth Bellach

Cymorth a Chefnogaeth MARS - <https://marshelp.heiw.wales>

Orbit360 - dyma'r system adborth cleifion a chydweithwyr ar gyfer pob meddyg yng Nghymru erbyn hyn. Gallwch gofrestru ar Orbit360 yn <https://orbit360.heiw.wales/login> chychwyn eich adborth. Anfonwch unrhyw ymholiadau drwy e-bost at heiw.orbit360@wales.nhs.uk neu ewch i'n tudalen [Cwestiynau Cyffredin](#) i gael rhagor o wybodaeth.

Gobeithio bod y canllaw hwn wedi bod yn ddefnyddiol i chi. Os oes gennych chi unrhyw gwestiynau, os ydych chi'n cael trafferth defnyddio'r wefan neu os ydych chi eisiau gadael rhywfaint o adborth, cysylltwch â ni gan ddefnyddio'r manylion isod.

Post- Uned Cymorth Ailddilysu, Addysg a Gwellu Iechyd Cymru, Tŷ Dysgu, Cefn Coed, Nantgarw, CF15 7QQ

E-bost - heiw.mars@wales.nhs.uk